



## Diwygiadau DSA – Cwestiynau ac Atebion y Sesiwn Wybodaeth

Chwefror 2024

Gweler isod yr ymatebion i gwestiynau a gyflwynwyd o flaen llaw i, ac ar ôl ein Sesiynau Gwybodaeth DSA a gynhaliwyd ddydd Mawrth 6 Chwefror.

Os nad yw cwestiwn penodol yn ymddangos, y rheswm am hynny yw bod cwestiynau lluosog ar yr un pwnc wedi'u cyflwyno ac rydym wedi cynnwys un ymateb cyffredinol.

Sylwch, caiff polisi cyllid myfyrwyr a meini prawf cymhwysedd eu pennu gan Weinidogion yn yr Adran Addysg (DfE) a gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ni allwn ateb cwestiynau polisi ar ran y DfE na'r gweinyddiaethau datganoledig.

### Y GWASANAETH DSA NEWYDD

#### C. Sut bydd myfyrwyr yn lleoli canolfannau asesu unwaith y bydd yr offeryn edrych i fyny wedi'i ddileu?

A. Nid yw bellach yn ofynnol i fyfyrwyr newydd sy'n gwneud cais am y DSA o dan y model gwasanaeth newydd ddod o hyd i'w canolfan asesu. Bydd y cyflenwr yn cysylltu'n rhagweithiol â nhw i drefnu asesiad anghenion: naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, pa un bynnag sydd orau gan y myfyriwr. Pan fydd myfyriwr yn dewis apwyntiad wyneb yn wyneb, bydd y cyflenwr yn darparu gwybodaeth iddynt ddewis eu lleoliad agosaf, a bydd eu cadarnhad yn cynnwys y wybodaeth deithio berthnasol ac yn cadarnhau unrhyw ofynion ychwanegol, megis gwybodaeth am barcio.

O 26 Chwefror 2024, ar gyfer myfyrwyr sydd wedi derbyn eu DSA1, ond nad ydynt eto wedi dewis Canolfan Asesu Anghenion, dylent nodi eu cod post yn yr offeryn chwilio ar GOV.uk, a bydd y manylion cyswllt ar gyfer naill ai Study Tech neu Capita yn cael eu darparu.

#### C. Pa sicrwydd y mae'r darparwyr newydd wedi'i roi i warantu bod myfyrwyr yn gallu cael asesiadau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru gyfan?

A. Lle bo'n berthnasol, mae SLC wedi cael sicrwydd y gall y contractwyr gyflawni yn unol â Safonau'r Gymraeg sy'n briodol i'r gwasanaeth hwn.

#### C. Dewis iaith y myfyriwr ar gyfer gweithredu system DSA newydd – a yw hyn yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain (BSL) yng ngoleuni Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 yn ddiweddar?

A. Os bydd myfyriwr yn dewis asesiad anghenion personol bydd yn gallu nodi unrhyw ofynion arbennig y gallai fod eu hangen arno i gael mynediad i'r asesiad anghenion gan gynnwys dehonglydd BSL. Bydd y cyflenwr hefyd yn gallu adolygu anghenion y myfyrwyr trwy eu tystiolaeth anabled. Er enghraifft, os bydd y myfyrwyr yn nodi eu bod yn Fyddar, ond nad ydynt yn dewis BSL yn eu gofynion, gall y cyflenwr wirio'n rhagweithiol a oes angen BSL cyn archebu'r asesiad.

#### C. Roedd y sianeli cyfathrebu a grybwyllwyd yn y sesiwn yn cynnwys sgwrsio testun a negeseuon diogel, a fydd myfyrwyr yn gallu ffonio a siarad ag unigolyn?

A. Bydd. Os nad yw myfyriwr eisiau ymgysylltu â sianel ar-lein, bydd ganddo'r opsiwn o gysylltu â'r cyflenwr trwy sianel arall gan gynnwys dros y ffôn.

#### C. A fydd yn rhaid i fyfyrwyr weithio trwy systemau sylfaen wybodaeth neu unrhyw systemau sgwrsfot awtomataidd wrth ddelio â SLC, Study Tech neu Capita?

A. Na, ni fydd yn ofynnol i gwsmeriaid ddefnyddio systemau sylfaen wybodaeth na sgwrsfotiaid. Mae ein hymchwil cwsmeriaid yn awgrymu y bydd y cyfleuster archebu ar-lein a ddefnyddir gan y ddau gyflenwr yn cael ei ffafrio gan fwyafrif sylweddol o fyfyrwyr. Fodd bynnag, os nad yw'r myfyriwr am ymgysylltu â sianel ar-lein, bydd ganddo'r opsiwn o gysylltu â'r cyflenwr trwy sianeli amgen eraill gan gynnwys dros y ffôn.

**C. A fydd amserlen i Capita/Study Tech gysylltu â myfyrwyr o ddyddiad y llythyrau DSA1 a DSA2, ac a fydd hyn yn cael ei ddatgan wrth y myfyriwr fel ei fod yn gwybod erbyn pryd y dylai glywed.**

**A.** Bydd y cyflenwyr yn rhoi mynediad i fyfyrwyr i lwyfannau archebu ar-lein a bydd hysbysiadau digidol yn cael eu defnyddio i annog cwsmeriaid i gymryd camau lle bo angen. Os nad yw myfyriwr eisiau ymgysylltu ar-lein, bydd ganddo'r opsiwn o gysylltu â'r cyflenwr trwy sianel arall. Bydd y cyflenwr yn cysylltu â'r myfyriwr yn rheolaidd os nad yw wedi archebu asesiad o anghenion o fewn 3 diwrnod iddynt ddarparu'r e-bost croeso a'r ddolen archebu.

**C. Ar hyn o bryd y llinell amser atgyweirio offer yw 3 diwrnod ar gyfer benthyciad pam mae hwn wedi ehangu i 5?**

**A.** Nid yw hyn yn gywir. Mae'r cyfeirnod amserlen 3 diwrnod o'r adeg casglu'r offer sydd wedi torri, ond disgwylir i gyflenwyr geisio trwsio'r mater o bell ac yna ar y safle cyn ei gasglu. Felly mae ein hamserlen 5 diwrnod newydd ar gyfer offer ar fenthyg o'r pwynt y codir y mater yn gyflymach na'r broses bresennol.

Yn ogystal, o dan y model newydd, bydd gan y cyflenwyr fynediad at dîm cymorth technegol ehangach a mwy o eitemau benthycia fel y bydd y gwaith atgyweirio a/neu gyflenwi eitem ar fenthyg yn gyflymach. Rhaid i unrhyw offer benthycia a ddarperir fod o'r un safon a galluoedd ag offer gwreiddiol y myfyrwyr, gan gynnwys unrhyw feddalwedd cynorthwyol perthnasol.

**C. Pan fydd myfyriwr yn cael benthyciad tra bod ei liniadur yn cael ei drwsio, a fydd ganddo'r un feddalwedd gynorthwyol â'i liniadur arferol?**

**A.** Bydd. Fel uchod, rhaid i unrhyw offer benthycia a ddarperir fod o'r un safon a galluoedd ag offer gwreiddiol y myfyrwyr, gan gynnwys unrhyw feddalwedd cynorthwyol perthnasol.

**C. Beth yw'r trefniadau wrth gefn pe na bai Study Tech na Capita yn gallu cyflawni eu cwota ar gyfer asesiadau neu hyfforddiant technoleg?**

**A.** Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r ddau gyflenwr i baratoi ar gyfer y newid i'r trefniadau gwasanaeth newydd. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gwblhau gwiriadau parodrwydd trylwyr i roi sicrwydd bod yr holl ofynion perthnasol, gan gynnwys darpariaeth ddigonol o asesiadau a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a osodwyd ar y cyflenwyr o dan y cytundebau fframwaith wedi'u cwblhau.

Bydd SLC yn monitro'r gwasanaeth o un pen i'r llall yn agos ac yn cymryd camau rhagweithiol i liniaru unrhyw faterion neu bryderon posibl.

**C. A fydd y cyflenwyr yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd?**

**A.** Mae'n ofynnol i gyflenwyr gadw at safonau hygyrchedd gan gynnwys cydymffurfio â Chanllawiau Cynnwys Gwe a Hygyrchedd. Bydd SLC yn parhau i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau hyn yn agos.

**C. Beth fydd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol prosesu ar gyfer Study Tech a Capita ar gyfer ymholiadau ac adroddiadau Asesiad Anghenion?**

**A.** Disgwylir i Adroddiadau Asesu Anghenion (NAR) fod ar gael i'r SLC o fewn 5 diwrnod gwaith o gynnal yr Asesiad Anghenion (ac eithrio'r rhai lle mae'r cwsmer wedi gofyn am adolygu'r NAR). Bydd SLC yn monitro hyn yn agos trwy ein trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol.

Disgwylir ymateb i e-byst cwsmeriaid a SLC o fewn dau ddiwrnod gwaith.

**C. Deallaf y bydd un pwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr ar gyfer eu taith DSA. A allwch egluro a yw hyn yn golygu y bydd y darparwr hyfforddiant technoleg gynorthwyol (Study Tech neu Capita) yn hysbysu darparwyr NMH am asesiad anghenion dysgu'r myfyriwr?**

A. Nid yw NMH o fewn cwmpas y fframwaith newydd ac felly, nid yw'r broses bresennol wedi newid. Bydd myfyrwyr yn parhau i gael manylion cyswllt y cyflenwyr NMH a argymhellir ac a gymeradwywyd ar eu llythyr DSA2.

Disgwylir i gyflenwyr barhau i argymhell a dod o hyd i ddarpariaeth NMH i fyfyrwyr yn unol â chanllawiau'r cyrff cyllido priodol. Mae canllawiau newydd ar gyfer dewis NMH wedi'u cynhyrchu mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru sydd ar gael yn:

- <https://www.practitioners.slc.co.uk/exchange-blog/2019/november/guidance-for-assessment-centres/>
- <https://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ymarferwyr/canllawiau-i-ganolfannau-asesu/>

**C. Pa grwpiau sector fydd yn ffurfio'r corff cyngori?**

A. Mae'r sefydliadau canlynol yn aelodau o Bwyllgor Ansawdd DSA newydd SLC:

Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington, Hawliau Anabledd y DU, Student Minds, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar a Chymdeithas Dyslecsia Prydain. Byddwn yn parhau i adolygu aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Ansawdd y DSA yn unol â'r polisi presennol ar gyfer ein holl fforymau, pwyllgorau a grwpiau rhanddeiliaid.

**C. Yn achos myfyriwr yn cysylltu â 'hen ganolfan' sy'n dal i weithredu ar gyfer argymhellion pellach, sut y bydd yr 'hen ganolfan' yn gwybod a yw Adolygiad â Thâl wedi'i gynnal, sy'n golygu y dylai'r naill neu'r llall o Study Tech/Capita fynd i'r afael â'r FR. Beth yw eich prosesau newydd i sicrhau bod y sefydliad cywir yn gwneud y gwaith?**

A. Os yw canolfan bresennol yn ansicr yn yr achos hwn, cysylltwch ag SLC am eglurhad.

**C. Beth ydych chi'n ei olygu pan fyddwch yn cyfeirio at 'hunanwasanaeth myfyrwyr' a sut olwg fydd ar hynny o 2025?**

A. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'hunanwasanaeth' mae hyn yn golygu rhoi opsiynau ychwanegol i gwsmeriaid ddod o hyd i wybodaeth ac atebion eu hunain trwy amrywiaeth o sianeli heb orfod cysylltu â SLC neu'r cyflenwr os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, mae ein hymchwil cwsmeriaid yn awgrymu y bydd y dull archebu ar-lein newydd a gynigir gan Study Tech a Capita, yn cael ei ffafrio gan fwyafrif sylweddol o fyfyrwyr. Fodd bynnag, os nad yw'r myfyriwr am ymgysylltu â sianel ar-lein, bydd ganddo'r opsiwn o gysylltu â SLC a'r cyflenwr trwy sianeli amgen, megis ffôn neu e-bost.

**C. Sut bydd y ddau ddarparwr neu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn cynnal system i sicrhau bod aseswyr a hyfforddwyr yn cael hyfforddiant digonol ar y feddalwedd/offer sydd ar gael. A fydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus gorfodol y gellir ei ddarparu gan gyflenwyr cynnyrch - yn fwy felly o ran meddalwedd/offer arbenigol fel yr un ar gyfer myfirwyr â nam ar y golwg/clyw?**

**A.** Rhaid i gyflenwyr fodloni'r gofynion a nodir yn y broses dendro sy'n cynnwys:

- Rhaid i'r cyflenwr allu asesu'r ystod eang o anabledau a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu dyrannu i aseswyr anghenion â'r sgiliau priodol.
- Rhaid i'r cyflenwr sicrhau bod aseswyr anghenion newydd/hyfforddwyr technoleg gynorthwyol yn cael eu goruchwylio gan aseswyr anghenion profiadol/hyfforddwyr technoleg gynorthwyol am o leiaf 5 sesiwn cyn cynnal sesiynau ar eu pen eu hunain. Rhaid storio cofnod o fentora a'i roi i SLC os gofynnir amdano.
- Rhaid i'r cyflenwr sicrhau bod ganddo bolisiau ar waith i sicrhau bod staff sy'n cynnal Asesiadau Anghenion ac yn darparu hyfforddiant technoleg gynorthwyol yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant priodol a'u bod yn cwblhau o leiaf 25 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus priodol a pherthnasol bob blwyddyn.
- Rhaid i'r cyflenwr berfformio sicrwydd ansawdd yn erbyn arferion sicrhau ansawdd mewnol cadarn a rhannu canlyniadau gyda SLC yn fisol.
- Dylai'r cyflenwr fod yn Gyflenwr Hyderus o ran Anabledd neu fod yn gweithio tuag at fod yn Gyflenwr Hyderus o ran Anabledd o fewn y 24 mis nesaf.
- Dylai'r cyflenwr sicrhau bod yr holl staff sy'n delio'n uniongyrchol â'r cwsmer wedi cael, neu y byddant yn derbyn o fewn 6 mis, hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd. Dylai'r hyfforddiant hwn ymgorffori ymwybyddiaeth o fyddardod.

Fel rhan o weithgareddau archwilio a sicrwydd parhaus SLC, byddwn yn parhau i ddilysu bod y cyflenwyr yn bodloni'r gofynion hyn.

**C. Gyda'r system newydd (o 26 Chwefror), a fydd Prifysgolion yn dal i gael copïau o'r Adroddiadau Asesu Anghenion Myfirwyr a llythyrau DSA2? Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ni. (Yn y dyfodol, a fydd angen i fyfirwyr fewngofnodi a lanlwytho o borth, yn hytrach na chael copïau drwy e-bost?)**

**A.** Bydd copïau o'r DSA2 a'r Adroddiad Asesu Anghenion yn parhau i gael eu rhannu gyda darparwyr addysg uwch os yw'r myfyriwr wedi rhoi caniatâd i rannu.

Yn 2025, byddwn yn cyflawni gwelliannau pellach i drawsnewid ein systemau a'r profiad ymgeisio i fyfirwyr sy'n gwneud cais am DSA. Bydd hyn yn galluogi SLC, cyflenwyr DSA a myfirwyr i gael mynediad hawdd a diogel at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Yn bwysig, yn y cyfnod hwn, bydd gan bob myfyriwr sy'n gwneud cais am DSA fynediad i geisiadau ar-lein, gallu hunanwasanaeth a sianeli cyswllt ychwanegol. Bydd myfirwyr yn dal i allu dewis eu cyfrwng cyfathrebu dewisol, er enghraifft e-bost neu ffôn os yw'n well ganddynt.

**C. Byddwn yn darparu cymorth mewnol (Mentora, Tiwtora ac ati) i'n myfyrwyr. Nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth am fod yn gyflenwr cymorth - a ddylem ni fod wedi cael unrhyw wybodaeth?**

**A.** Nid yw NMH o fewn cwmpas y fframwaith newydd ac felly, nid yw'r broses bresennol wedi newid.

Disgwylir i gyflenwyr barhau i argymhell a dod o hyd i ddarpariaeth NMH i fyfyrwyr yn unol â chanllawiau'r cyrff cyllido priodol. Bydd yn ofynnol i Aseswyr Anghenion barhau i ddod o hyd i ddau ddyfynbris gan ddarparwyr NMH cofrestredig sy'n gallu bodloni anghenion myfyrwyr. Bydd SLC hefyd yn parhau i adolygu a chymeradwyo holl argymhellion yr asesiad anghenion a bydd yn dewis y cyflenwr NMH gyda'r dyfynbris mwyaf cystadleuol lle nad oes unrhyw amgylchiadau eithriadol.

Mae canllawiau newydd ar gyfer dewis NMH wedi'u cynhyrchu mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru sydd ar gael yn:

- <https://www.practitioners.slc.co.uk/exchange-blog/2019/november/guidance-for-assessment-centres/>
- <https://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/ymarferwyr/canllawiau-i-ganolfannau-asesu/>

Gall cyflenwyr NMH gysylltu â Study Tech a Capita i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth y maent yn ei gynnig os dymunant, drwy gysylltu â:

- Capita yn [DSA@Capita.com](mailto:DSA@Capita.com)
- Study Tech yn [opportunity@study.tech](mailto:opportunity@study.tech)

**C. Os yw myfyriwr wedi gwneud cais am DSA o'r blaen ar gyfer cwrs israddedig ac yna'n ailymgeisio wrth iddo ddechrau ar gwrs ôl-raddedig, a fydd yn cael ei aseinio i un o'ch cyflenwyr newydd?**

**A.** Bydd myfyriwr ond yn cael ei neilltuo i Study Tech neu Capita lle mae angen adolygiad wedi'i ariannu o anghenion. Lle mae myfyriwr wedi graddio'n ddiweddar ac yn symud ymlaen yn uniongyrchol i astudiaeth ôl-raddedig mewn maes pwnc tebyg, gall yr asesiad o anghenion astudio DSA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cwrs israddedig fod yn ddigon mewn llawer o achosion i nodi anghenion cymorth y myfyriwr ar gyfer y cwrs ôl-raddedig. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai'r myfyriwr barhau i gael cymorth NMH heb fod angen asesiad pellach o anghenion astudio DSA.

**C. Yn y sleid llinell amser trawsnewid DSA, rydych chi'n sôn am wasanaeth digidol wedi'i drawsnewid o 2025 gyda "cyfathrebu digidol diogel rhwng SLC, cyflenwyr, partneriaid a darparwyr addysg". A fydd y "cyfathrebiad digidol diogel" hwn ar ffurf API rhwng systemau SLC, cyflenwyr, partneriaid a darparwyr addysg?**

**A.** Bydd union natur y cyfathrebiad digidol diogel yn dibynnu ar sut mae'r gwahanol bartïon yn dymuno cael mynediad iddo. Bydd APIs uniongyrchol rhwng SLC a chyflenwyr, ac ar gyfer darparwyr addysg efallai y bydd APIs a/neu fynediad i borth ar-lein. Darperir gwybodaeth bellach maes o law.

**C. A allwch chi roi sylwadau ar beth fydd y drefn pan fydd myfyriwr anabl hefyd yn aelod o staff yn y SAU / corff arall sy'n darparu eu cefnogaeth (fel CAPITA), megis NMH a Thechnoleg Gynorthwyol/Hyfforddiant**

**A.** Bydd polisi a gweithdrefn Cofrestr Buddiannau yn eu lle a bydd SLC yn gweithio'n agos gyda'r cyflenwyr i adolygu sut y maent yn bwriadu rheoli unrhyw wrthdaro a nodir. Mae SLC yn cyd-fynd â pholisi a safonau'r llywodraeth mewn perthynas â Gwrthdaro Buddiannau (COI) ac mae ein polisi COI wedi'i rannu â chyflenwyr.

**TREFNIADAU TROSGLWYDDO****C. Ar ba ddyddiad y bydd chwiliad cod post gwefan GOV.uk ar gyfer canolfannau asesu yn cael ei dynnu i lawr?**

**A.** O ddydd Llun 26 Chwefror ni fydd yr offeryn chwilio am god post ar GOV.uk ar gael yn ei ffurf bresennol mwyach; bydd yr holl Ganolfannau Asesu Anghenion presennol yn cael eu tynnu o'r swyddogaeth chwilio.

Bydd y teclyn edrych i fyny ei hun, fodd bynnag, ar gael am gyfnod dros dro yn dilyn trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd, i'r cwsmeriaid hynny a dderbyniodd eu llythyr DSA1 cyn 26 Chwefror, ond nad ydynt eto wedi dewis Canolfan Asesu Anghenion. Bydd y cwsmeriaid hyn yn cael eu cefnogi gan Study Tech neu Capita. Dylai'r myfyriwr nodi ei god post, yn unol â'r broses gyfredol, a bydd y manylion cyswllt ar gyfer naill ai Study Tech neu Capita yn cael eu darparu.

**C. A fydd canolfannau asesu presennol yn gallu asesu myfyrwyr sydd eisoes wedi cysylltu â nhw i drefnu asesiad unwaith y bydd y dudalen we chwilio cod post wedi'i thynnu i lawr?**

**A.** Bydd. Lle mae myfyrwyr wedi derbyn cadarnhad o'u cymhwysedd ar gyfer DSA (trwy eu llythyr DSA1), ac wedi archebu, neu wrthi'n archebu eu hasesiad o anghenion, yna gellir cynnal yr asesiad o anghenion os yw'r ganolfan a ffefrir yn dal yn weithredol ac yn gallu gwneud hynny.

Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi derbyn eu DSA1, ond nad ydynt eto wedi dewis Canolfan Asesu Anghenion, dylent nodi eu cod post yn yr offeryn chwilio ar GOV.uk, a bydd y manylion cyswllt ar gyfer naill ai Study Tech neu Capita yn cael eu darparu.

**C. O ran yr asesiadau ergonomig ar gyfer gofynion offer, a fydd yr asesiad yn dal i gael ei wneud wyneb yn wyneb â'r myfyriwr fel y bu'n ofynnol erioed yn y gorffennol?**

**A.** Bydd. Nid oes unrhyw newid i'r broses hon.

**C. Os yw myfyriwr yn dymuno cael cyfarfod Asesu Anghenion wyneb yn wyneb, ble cynhelir hwn? A yw Study Tech a Capita yn mynd i ddarparu cyfleusterau ar gyfer y cyfarfodydd hyn, ac os felly, ym mha leoliadau?**

**A.** Ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n gwneud cais am DSA, unwaith y bydd SLC wedi cadarnhau eu cymhwysedd, nid yw'r cyfrifoldeb arnynt mwyach i fynd at yr offeryn chwilio cod post a dod o hyd i'w canolfan asesu anghenion agosaf. Yn lle hynny, bydd y myfyriwr yn cael ei neilltuo i naill ai Study Tech neu Capita, a bydd yn cysylltu'n rhagweithiol â'r myfyriwr i drefnu asesiad. Bydd hyn yn helpu cyflymu'r broses i'r myfyriwr. (Fel yr uchod, fodd bynnag, o 26 Chwefror 2024, ar gyfer myfyrwyr sydd wedi derbyn eu DSA1, ond nad ydynt eto wedi dewis Canolfan Asesu Anghenion, dylent nodi eu cod post yn yr offeryn chwilio ar GOV.uk, a bydd manylion cyswllt ar gyfer naill ai Study Tech neu Capita yn cael ei ddarparu).

Bydd myfyrwyr yn parhau i allu dewis a ydynt am gael asesiad wyneb yn wyneb neu asesiad ar-lein.

Mae gan y cyflenwyr leoliadau ac adeiladau addas ar gyfer asesiadau wyneb yn wyneb ar draws pob parth daearyddol. Bydd SLC yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r canolfannau asesu hyn ac yn cynnal archwiliadau i sicrhau addasrwydd lleoliadau o'r fath. Bydd strategaeth leoli'r ddau gyflenwr hefyd yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion myfyrwyr. Trwy ein hymgysylltiad parhaus â myfyrwyr, byddwn hefyd yn dilysu gyda nhw bod yr amser teithio i gyrraedd eu canolfan asesu yn gyfleus.

**C. A yw cyflenwyr yn dal i allu prosesu archeb sy'n weddill ar ôl 26 Chwefror 2024. Lle mae DSA2 wedi'i ddarparu gan y myfyriwr; a**

**C. Beth sy'n digwydd i DSA2s ar gyfer adroddiadau NAR neu ergonomig a gyflwynwyd yn ddiweddar cyn dyddiad y contract newydd, ac a fydd aseswyr yn cael atebion i ymholiadau a anfonwyd eisoes ar ôl i'r Ganolfan Fynediad roi'r gorau i weithredu neu roi'r gorau i fasnachu?**

**A.** Ar y pwynt trosglwyddo, gall cwsmeriaid sydd eisoes wedi derbyn eu hasesiad o anghenion a'u llythyr DSA2 dilyn ond nad ydynt eto wedi trefnu eu technoleg gynorthwyol a'u hyfforddiant, drefnu a chael cymorth gan y cyflenwr(wyr) presennol a enwir yn eu gohebiaeth ac felly bydd y porth eQuote yn parhau i fod ar gael am gyfnod o amser i ganiatáu hyn (ar hyn o bryd rydym yn cynllunio i hwn fod ar gael tan ddiwedd mis Mai). Nid oes dyddiad terfyn penodol ar gyfer darparu'r dechnoleg a'r hyfforddiant gofynnol yn yr achos hwn.

Rydym yn cydnabod y gall fod cyfnod o amser ar ôl i fyfyrwr dderbyn ei lythyr DSA2, i gysylltu â chyflenwr i drefnu darparu gwasanaethau. Rydym hefyd yn deall y gallai rhai cyflenwyr presennol fod yn ystyried eu trefniadau yn y farchnad DSA o ganlyniad i'r diwygiadau caffael.

Disgwylwch i gyflenwyr a enwir yn llythyrau DSA2 myfyrwyr ddarparu gwasanaethau yn dilyn cyswllt gan y myfyriwr, am o leiaf hyd at dri mis o'r dyddiad ar yr ohebiaeth DSA2, lle bo modd. Os na all cyflenwr ddarparu'r gwasanaethau hyn am ba bynnag reswm, dylent gysylltu â SLC yn [DSA\\_Requests@slc.co.uk](mailto:DSA_Requests@slc.co.uk) cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cyfeirio'r myfyriwr at gyflenwr arall i gael cymorth.

**C. A fydd oedi i'r broses DSA yn ystod y cyfnod pontio ac a oes unrhyw fesurau wrth gefn yn eu lle i liniaru hyn?**

**A.** Rydym yn prosesu ceisiadau DSA mor gyflym ac effeithlon â phosibl a byddwn yn parhau i fonitro amseroedd trin yn agos i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo mewn modd amserol.

O dan y trefniadau gwasanaeth newydd, bydd SLC yn gallu sicrhau profiad cyson o ansawdd i fyfyrwyr. Bydd Adroddiadau Asesu Anghenion a ddarperir gan Study Tech a Capita, er enghraifft, yn fwy cyson a fydd yn galluogi SLC i brosesu adroddiadau yn fwy effeithlon.

O dan y model gwasanaeth newydd, bydd gan fyfyrwyr un cyflenwr sy'n berchen ar eu cymorth o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer eu hasesiad o anghenion, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol, a byddant yn cefnogi myfyrwyr yn rhagweithiol drwy eu taith DSA. O ganlyniad, bydd profiad cyffredinol myfyrwyr yn cael ei wella, a bydd yr amser a gymerir i fyfyrwyr gael eu cymorth yn ei le yn cael ei leihau.

**C. A oes pwynt terfyn ar gyfer pan na all y rhai nad ydynt yn ddeiliaid contract gyflawni asesiadau anghenion mwyach ac yn lle hynny y dylid eu cyfeirio at SLC? (Er enghraifft, os oedd gan fyfyrwr lythyr DSA1 dyddiedig cyn y dyddiad trosglwyddo ond heb wneud unrhyw beth ag ef i ddechrau, yna penderfynu archebu 1/2/4/6/12 mis yn ddiweddarach, ac eisiau defnyddio canolfan a argymhellir gan ffrind ac felly wedi cysylltu'n uniongyrchol, nid drwy'r chwiliad cod post, o ba ddyddiad na ddylai canolfan asesu gyflwyno'r asesiad)?**

**A.** Lle mae myfyrwyr wedi derbyn cadarnhad o’u cymhwysedd ar gyfer DSA (trwy eu llythyr DSA1), ac wedi archebu, neu wrthi’n archebu eu hasesiad o anghenion, yna gellir cynnal yr asesiad o anghenion os yw’r ganolfan a ffeirir yn dal yn weithredol ac yn gallu gwneud hynny.

O 26 Chwefror 2024, ar gyfer myfyrwyr sydd wedi derbyn eu DSA1, ond nad ydynt eto wedi dewis Canolfan Asesu Anghenion neu sydd wedi dechrau’r broses o archebu Asesiad Anghenion, dylent nodi eu cod post yn yr offeryn chwilio ar GOV.uk a’r manylion cyswllt ar gyfer darperir naill ai Study Tech neu Capita i archebu Asesiad Anghenion.

Felly, o 26 Chwefror ymlaen, ni ddylai canolfannau asesu presennol gynnwys cwsmeriaid newydd nad oeddent wedi clywed ganddynt cyn y dyddiad hwn. Bydd SLC yn parhau i fonitro’n agos y dyddiad a ddarparwyd ar Adroddiadau Asesu Anghenion mewn perthynas â gohebiaeth DSA1 y cwsmer.

**C. A oes pwynt terfyn ar gyfer pan na fydd anfonebau gan ddeiliaid nad ydynt yn ddeiliaid contract yn cael eu talu mwyach gan SLC am wasanaethau asesu anghenion a ddarperir?**

**A.** Nid oes dyddiad terfyn penodol. Bydd y broses anfonebu yn aros yr un fath, a bydd y cyfeiriadau e-bost a ddefnyddir i gyflwyno ac ymholi am anfonebau yn parhau i fod yn weithredol. Byddwn yn parhau i brosesu anfonebau mor brydlon â phosibl.

**C. A yw'n debygol y bydd arweiniad penodol ar gyfeirio'r garfan ôl-raddedig 24/25 tuag at y contractwyr newydd gan ragweld eu rôl yn cefnogi'r myfyrwyr hyn? Neu a ydym yn syml yn eu cyfeirio at SFE am arweiniad pellach ar eu cymorth ar gyfer y flwyddyn nesaf?**

**A.** Nid oes unrhyw newid ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig (PG). Mae eu hasesiad o anghenion yn nodi'r cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu cwrs cyfan. Byddant yn parhau i wneud cais am DSA bob blwyddyn, yn unol â'r broses bresennol; a dylai barhau i ail-ymgeisio trwy gais papur. Dim ond os bydd eu cyflenwr presennol yn gadael y farchnad y byddai myfyrwyr ôl-raddedig yn cael eu heffeithio, ac yn y sefyllfa hon, dylent gysylltu â SLC os oes angen cymorth ychwanegol arnynt.

**C. A oes canllawiau safonol a gyhoeddwyd gan SLC ar gyfer Canolfannau Mynediad sy'n rhoi hysbysiad cau o ganlyniad i drosglwyddo i gontractwyr newydd?**

**A.** Bydd. Os oes unrhyw gyflenwr yn bwriadu gadael y farchnad DSA, cysylltwch â SLC, DfE a Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl fel y gallwn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gefnogi'r myfyrwyr sy'n defnyddio'ch gwasanaethau ar hyn o bryd. Cysylltwch â:

- SLC yn [DSA\\_Requests@slc.co.uk](mailto:DSA_Requests@slc.co.uk);
- Yr Adran Addysg yn [disabled.studentallowances@education.gov.uk](mailto:disabled.studentallowances@education.gov.uk)
- Llywodraeth Cymru yn [isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru](mailto:isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru).

Ar ôl derbyn hysbysiad, bydd SLC yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ac arweiniad am y broses hon. Er mwyn helpu sicrhau parhad cymorth i gwsmeriaid, rhowch wybod i SLC am ba mor hir yr ydych yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaethau DSA: [DSA\\_Requests@slc.co.uk](mailto:DSA_Requests@slc.co.uk).



**C. A all SLC ddarparu'r niferoedd a ragwelir o 23-24 o fyfyrwyr sy'n cael mynediad i asesiadau trwy'r system bresennol?;**

**C. Sawl llythyr DSA1 a anfonwyd at fyfyrwyr 23-24 nad ydynt wedi arwain at fyfyrwr yn cael mynediad i asesiad anghenion. Sawl llythyr DSA1 a anfonwyd mewn blynyddoedd blaenorol na arweiniodd at gyflawni asesiad anghenion? a;**

**C. Faint o fyfyrwyr y rhoddwyd llythyrau DSA 1 iddynt cyn 26 Chwefror 2024 y mae SLC yn aros am NARs amdanynt?**

**A.** Yn ystod y tair blynedd academiaidd flaenorol, ar gyfartaledd, aeth 85% o gwsmeriaid DSA y cadarnhawyd eu bod yn gymwys ymlaen i archebu Asesiad Anghenion. Yn 23/24, rydym wedi gwneud tua 68k o gwsmeriaid yn gymwys ac mae tua 65% wedi cael Asesiad Anghenion hyd yma, sy'n cyd-fynd â'r un pwynt yn y cylch academiaidd diwethaf. Rydym yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau yn ofalus a lle mae myfyrwyr ar eu taith DSA wrth i ni symud tuag at y cyfnod pontio.

**C. A oes dyddiad cau ar gyfer pan na all canolfannau asesu heb gontract gyflawni adolygiadau a ariennir mwyach ac a ddylid yn hytrach eu hatgyfeirio'n ôl at SLC?**

**A.** O 26 Chwefror 2024, ni fydd cyflenwyr presennol bellach yn gallu cynnal adolygiadau a ariennir, a dylid cynghori myfyrwyr i gysylltu ag SLC a fydd yn eu neilltuo i Study Tech neu Capita. Lle bo modd, fodd bynnag, disgwylir i gyflenwyr presennol barhau i gefnogi myfyrwyr sy'n dychwelyd drwy gydol eu cwrs gyda gwasanaethau cwsmeriaid parhaus. Mae hyn yn cynnwys unrhyw adolygiadau heb eu hariannu a gwmpesir o dan y trefniant ffi sengl, megis cymorth ôl-ofal neu unrhyw faterion a reolir gan y cyflenwyr technoleg gynorthwyol presennol drwy yswiriant a gwarant.

**C. A yw llythyrau DSA1 yn cael eu hanfon fel arfer hyd nes y bydd y chwiliad cod post wedi'i ddiffodd?**

**A.** Bydd. Sylwch, nid oes unrhyw newid i'r rhan hon o'r broses o dan y model gwasanaeth newydd. Bydd cwsmeriaid yn parhau i wneud cais i SLC, byddwn yn prosesu eu cais ac yn asesu eu cymhwysedd, a byddwn yn parhau i anfon gohebiaeth DSA1 yn cadarnhau eu cymhwysedd.

**C. Sut dylai canolfannau Asesu Anghenion presennol, sy'n parhau ar agor y tu hwnt i lansiad y gwasanaeth newydd ar 26 Chwefror, gael dyfynbrisiau am nwyddau a gwasanaethau?**

**A:** Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio i'r porth eQuote barhau i fod ar gael tan ddiwedd mis Mai. Byddwn yn cadarnhau'r union ddyddiad na fydd y porth ar gael mwyach a pha broses y dylid ei dilyn yn ei absenoldeb, maes o law.

Ar gyfer unrhyw ddyfynbrisiau NMH neu dacsu nad ydynt wedi'u cynnwys drwy eQuote, bydd y prosesau a'r atebion presennol y mae canolfannau Asesu Anghenion yn eu defnyddio i gael prisiau am y gwasanaethau hyn yn parhau fel arfer.

**CEFNOGI MYFYRWYR PRESENNOL**

**C. Beth fydd yn cael ei roi ar waith i reoli ymholiadau myfyrwyr sydd eisoes yn y system sy'n cael eu cyfeirio'n ôl at eu haseswr ar hyn o bryd?**

**C. Pa ddarpariaethau sydd yn eu lle ar gyfer cefnogi myfyrwyr y darparwyd offer iddynt mewn blynyddoedd blaenorol.**

**A.** Rydym yn deall y gall rhai myfyrwyr geisio cymorth pellach gan eu haseswr presennol neu gyflenwr technoleg gynorthwyol. Lle bo modd, disgwylir i gyflenwyr presennol barhau i gefnogi myfyrwyr sy'n dychwelyd drwy gydol eu cwrs gyda gwasanaethau cwsmeriaid parhaus. Mae hyn yn cynnwys unrhyw adolygiadau heb eu hariannu a gwmpesir o dan y trefniant ffi sengl, cymorth ôl-ofal neu unrhyw faterion a reolir gan y cyflenwyr technoleg gynorthwyol presennol drwy yswiriant a gwarant.

Rhaid i gyflenwyr sy'n parhau i ddarparu cymorth i fyfyrwyr SFE a CMC presennol barhau i gydymffurfio â'r safonau a amlinellir gan DfE a Llywodraeth Cymru. Os nad yw unrhyw ddarparwr ddarparu'r gwasanaethau hyn am ba bynnag reswm, dylent gysylltu â SLC yn [DSA\\_Requests@slc.co.uk](mailto:DSA_Requests@slc.co.uk) cyn gynted â phosibl. Bydd SLC yn cyfeirio myfyrwyr sydd angen cymorth at gyflenwr arall.

Ar ôl trosglwyddo i'r model gwasanaeth newydd, pan fo myfyriwr angen adolygiad cyllidawdy ac unrhyw offer dilynol, bydd hyn yn cael ei ddarparu gan Study Tech neu Capita.

**C. Os oes angen adolygiad o anghenion ar fyfyriwr, oherwydd diagnosis newydd, ac nad yw ei NAC gwreiddiol yn weithredol mwyach, pwy fydd yn gwneud hyn, a sut fydd ganddo'r wybodaeth wreiddiol am y myfyriwr hwnnw?**

**A.** Yn dilyn y newid i'r model gwasanaeth newydd, pan fo myfyriwr angen adolygiad cyllidawdy ac unrhyw offer dilynol, bydd hyn yn cael ei ddarparu gan Study Tech neu Capita. Cynghorir y myfyriwr i gysylltu ag SLC yn y lle cyntaf a byddwn yn ei aseinio i un o'r cyflenwyr. Yn unol â'n proses bresennol, os bydd angen, bydd y cyflenwr newydd yn gofyn i'r cwsmer rannu ei Adroddiad Asesu Anghenion (NAR) neu dystiolaeth feddygol gyda nhw. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae caniatâd wedi'i roi, bydd SLC yn darparu'r wybodaeth hon i'r cyflenwr newydd.

**C. Os oes angen newid taith tacsï DSA ar fyfyriwr, er enghraifft os yw'n mynd i leoliad, pwy fydd yn gwneud hyn? a; C. Lle mae Canolfan Asesu Anghenion myfyriwr wedi cau a bod angen mân bethau arnynt fel mwy o oriau NMH neu newid tacsï, dywedaso "yn fewnol" beth yw ystyr hynny? Yn SLC neu'n gofyn i'r SAU ddarparu dyfynbrisiau/cyfiawnhad?**

**A.** Wrth 'Mewnol' – rydym yn golygu SLC.

Y disgwyl yw y bydd Canolfan Asesu Anghenion wreiddiol y myfyriwr yn parhau i ddarparu cymorth gydag unrhyw argymhellion ychwanegol ar gyfer tacsï ac NMH lle bo angen.

Fodd bynnag, os nad yw'r Ganolfan Asesu Anghenion honno bellach yn weithredol, dylai myfyrwyr gysylltu â SLC dros y ffôn neu drwy e-bost. Ar gyfer Ymgynghorwyr Anabled o fewn Darparwyr Addysg Uwch sy'n cefnogi myfyrwyr, a fydddech cystal â pharhau i gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y materion hyn yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl. Byddwn yn adolygu amgylchiadau pob achos ac yn gyntaf yn ystyried a allwn drawsnewid y cais yn fewnol (SLC) heb atgyfeiriad yn rhywle arall, er enghraifft, mewn achosion lle mae angen mân ddiweddariadau yn unig i'w cefnogi, megis teithiau tacci ychwanegol neu lle mae angen mwy o oriau ar gyfer gwasanaethau NMH a gymeradwywyd yn flaenorol. Fodd bynnag, os oes angen adolygiad ehangach o'u pecyn cymorth ar y myfyriwr, neu, os yw'r myfyriwr yn ystyried cymorth newydd nad oedd wedi'i argymhell yn flaenorol, caiff y myfyriwr ei neilltuo i Study Tech neu Capita – a fydd wedyn yn darparu'r gwasanaethau gofynnol. Rydym wedi dylunio'r broses atgyfeirio hon ar y cyd â'r cyflenwyr ac maent yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'r myfyrrwyr hyn yn brydlon a chyda gofal.

### **C. A fydd myfyrrwyr 23/24 yn cael eu heffeithio a'u hasesu drwy'r broses newydd?**

**A.** Ar y pwynt trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n gwneud cais am DSA ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 eisoes wedi derbyn eu llythyr DSA1 yn cadarnhau eu cymhwysedd. Ar gyfer y cwsmeriaid hynny nad ydynt eto wedi derbyn eu llythyr DSA1, bydd eu hasesiadau anghenion, technoleg gynorthwyol a gwasanaethau hyfforddi yn cael eu darparu gan Study Tech neu Capita.

Ar y dyddiad y bydd trefniadau'r gwasanaeth yn dechrau, gallai myfyrrwyr fod ar wahanol gamau o'u taith. Mae Sleid 16 yn y Cyflwyniad *Sesiwn Wybodaeth DSA* a'r sgrïpt sy'n cyd-fynd ag ef, yn nodi'r broses ar gyfer cefnogi myfyrrwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

### **C. Ar gyfer cyflenwyr heb gontract, o dan y system newydd a fydd fframwaith sicrhau ansawdd neu ddogfen ganllaw yn cael ei chynhyrchu ar gyfer cyflwyno adolygiadau heb eu hariannu a diweddariadau i SLC?**

**A.** Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n parhau i ddarparu cymorth i fyfyrwyr SFE a CMC presennol barhau i gydymffurfio â'r canllawiau a amlinellwyd gan DfE a Llywodraeth Cymru.

- Student Finance England: <https://www.practitioners.slc.co.uk/exchange-blog/2019/november/guidance-for-assessment-centres/>
- Cyllid Myfyrrwyr Cymru: <https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/ymarferwyr/canllawiau-i-ganolfannau-asesu/>

### **C. A fydd SLC yn cynhyrchu unrhyw ganllawiau cyfathrebu i ganolfannau asesu heb gontract eu defnyddio wrth gyfathrebu â'u myfyrrwyr am y newid, er mwyn sicrhau cysondeb neges ar draws canolfannau? a;**

#### **C. Sut mae SLC yn cyfathrebu'r newid i'r holl fyfyrwyr presennol sydd wedi bod drwy'r system bresennol?**

**A.** Bydd myfyrrwyr yn parhau i ymgeisio i SLC fel y maent ar hyn o bryd a byddwn yn prosesu eu cais ac yn asesu eu cymhwysedd. Yna byddwn yn aseinio'r cwsmer i Study Tech neu Capita.

Nid oes unrhyw newid i fyfyrwyr presennol ac nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau. Dim ond os bydd eu darparwr DSA gwreiddiol yn gadael y farchnad, a bod angen cymorth pellach ar y myfyriwr wedi hynny, yr effeithir ar fyfyrwyr presennol. Rydym yn cysylltu'n rhagweithiol â myfyrrwyr i roi gwybod iddynt os nad yw eu cyflenwr yn darparu cymorth mwyach – a darparu ein manylion cyswllt os oes angen cymorth arnynt. Yn y sefyllfa hon, byddwn yn neilltuo'r myfyriwr i gyflenwr arall i sicrhau ei fod yn cael y cymorth sydd ei angen.

Rydym hefyd yn rhannu canllawiau gydag unrhyw gyflenwr sy'n gadael y farchnad yn gofyn iddynt hysbysu myfyrrwyr o'u bwriad i gau a rhoi manylion cyswllt ein Tîm DSA iddynt, fel y gallwn barhau i'w cefnogi.

**C. A oes proses i ganolfannau asesu ei dilyn, lle mae myfyrrwyr yn cysylltu â Darparwyr Gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol nad ydynt yn dal contract sydd naill ai wedi cau neu wedi methu â darparu gwasanaeth o safon. Pa broses a chyfathrebu byddai SLC yn hoffi i ganolfannau asesu eu defnyddio?**

[www.gov.uk/slc](https://www.gov.uk/slc)



**A.** Os nad yw cyflenwr myfyriwr yn gallu darparu cymorth am ba bynnag reswm, neu os yw wedi gadael y farchnad, dywedwch wrth y myfyriwr i gysylltu â SLC a byddwn yn sicrhau ei fod yn cael y cymorth sydd ei angen arno gan gyflenwr arall.

## ANFONEBU

**C. Cawsom rai cwestiynau gan gyflenwyr presennol ynghylch prosesu anfonebau, yn benodol:**

- **A fyddai taliadau'n cael eu gwneud am asesiadau a gynhaliwyd eisoes cyn i'r gwasanaeth newydd ddechrau;**
- **Os bydd y broses anfonebu yn aros yr un fath, a;**
- **Pe byddai anfonebau'n cael eu prosesu'n arafach o ganlyniad i ddargyfeirio adnoddau.**

**A.** Bydd y broses anfonebu yn aros yr un fath, a bydd y cyfeiriadau e-bost a ddefnyddir i gyflwyno ac ymholi am anfonebau yn parhau i fod yn weithredol.

Byddwn yn parhau i brosesu anfonebau mor brydlon â phosibl, ac os bydd y model diwygiedig newydd yn cael unrhyw effaith mae'n debygol o fod yn un gadarnhaol wrth i'r broses anfonebu gyda'r cyflenwyr newydd gael ei gwella a'i hawtomeiddio ymhellach.

## CYMORTH ANFEDDYGOL A GWRTHDARO O FUDDIANNAU

**C. Beth sydd ar waith i reoli Gwrthdaro Buddiannau?**

**A.** Mae SLC yn cyd-fynd â pholisi a safonau'r llywodraeth mewn perthynas â Gwrthdaro Buddiannau (COI) ac mae ein polisi COI wedi'i rannu â chyflenwyr.

**C. Fel darparwyr NMH a allwn ni ôl-hawlio am sesiynau cymorth NMH a ddarperir i fyfyrwyr y cadarnhawyd gan y DSA eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyster ond, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, sy'n profi oedi cyn cael eu hasesu a chael gwybod am eu dyfarniad?**

**A.** Fel eithriad, mae'n bosibl i SLC ystyried ad-dalu unrhyw gymorth NMH interim y gallai darparwr addysg uwch fod wedi'i roi ar waith tra bod cwsmeriaid yn bwrw ymlaen â'u cais. Byddai angen i'r cymorth NMH fod yn gyllidawdy trwy DSA a chael ei argymhell wedyn gan yr Aseswr Anghenion yn NAR y cwsmer. Ar gyfer cwsmeriaid Student Finance England (SFE), byddai'n rhaid i'r cyflenwr a ddefnyddir fod wedi'i gofrestru, gyda chostau'n cael eu codi o fewn y bandiau cysylltiedig.

**C. O dan ba amgylchiadau (os o gwbl) y byddwch yn derbyn argymhellion gan Swyddog Anabledd yn SAU y myfyriwr mewn perthynas â diwygiadau cymorth NMH i fyfyrwyr sydd â dyfarniad presennol? Yn benodol, a fydddech chi'n derbyn argymhellion ar gyfer myfyrwyr sydd â dyfarniad DSA presennol sy'n chwilio am gynnydd yn eu horiau NMH?**

**A.** Yn gyffredinol, rhaid i'r holl argymhellion ar gyfer cymorth DSA gael eu darparu gan Aseswyr Anghenion. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw Canolfan Asesu Anghenion myfyriwr yn gweithredu mwyach, byddwn yn adolygu amgylchiadau pob achos ac yn gyntaf yn ystyried a allwn drawsnewid y cais yn fewnol (SLC) heb atgyfeiriad yn rhywle arall. Er enghraifft, mewn achosion lle nad oes angen ond mân ddiweddariadau i gymorth, megis teithiau tacsi ychwanegol neu lle mae angen mwy o oriau ar gyfer gwasanaethau NMH a gymeradwywyd yn flaenorol.

Fodd bynnag, os oes angen adolygiad ehangach o'u pecyn cymorth ar y myfyriwr, neu, os yw'r myfyriwr yn ystyried cymorth newydd nad oedd wedi'i argymhell yn flaenorol, caiff y myfyriwr ei neilltuo i Study Tech neu Capita a byddant yn darparu'r gwasanaethau gofynnol. Rydym wedi dylunio'r broses atgyfeirio hon ar y cyd â'r cyflenwyr ac maent yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'r myfyrwr hyn yn brydlon a chyda gofal.

**C. Ble gallwn ni ddod o hyd i union ffiniau ardaloedd Capita ac Astudio Tech? Er mai darparwr bach yn unig ydyn ni, mae'n ymddangos bod yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu ar draws ffin, ond nid ydym yn siŵr. Byddem yn croesawu eglurhad er mwyn i ni allu sicrhau bod gan y canolfannau asesu perthnasol ein manylion.**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cysylltu cod post â rhanbarth a gallwch edrych o fewn data SYG ar eu gwefan. Gallwch hefyd wirio gan ddefnyddio [Search \(findthatpostcode.uk\)](https://www.findthatpostcode.uk), er enghraifft – drwy roi eich cod post i ddod o hyd i'ch rhanbarth a mapio hwnnw i'r cyflenwr perthnasol.

Yn gyffredinol, bydd myfyrwr yn cael eu neilltuo i Study Tech neu Capita yn seiliedig ar y cyfeiriad cyswllt y maent yn ei roi i SLC. Os caiff cymhwysedd i gael DSA ei gadarnhau ar ôl i'r tymor ddechrau, caiff y myfyriwr ei neilltuo i gyflenwr fframwaith yn seiliedig ar gyfeiriad ei ddarparwr addysg uwch (HEP).

Pan fo cyflenwr wedi darparu asesiad o anghenion, bydd hefyd yn gyfrifol am gyflenwi'r dechnoleg gynorthwyol, yr hyfforddiant technoleg gynorthwyol a chefnogi'r myfyriwr ag ôl-ofal drwy gydol ei gwrs, hyd yn oed os yw wedi'i leoli mewn parth gwahanol ar ôl cynnal yr asesiad. Felly, cysylltwch â'r ddau gyflenwr os dymunwch wneud hynny.

**C. Soniasoch am y Gwrthdaro Buddiannau ynghylch cymorth NMH ar yr alwad. A allech hefyd fanylu ar sut yr ymdrinnir ag unrhyw wrthdaro buddiannau?**

**A.** Mae SLC yn ei gwneud yn ofynnol i Study Tech a Capita gadw datganiad cynhwysfawr a chyfredol o'r holl fuddiannau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl gyllid DSA yn cael ei ddsbarthu mewn modd teg, agored a thryloyw. Disgwyliwn i'r ddau gyflenwr ystyried rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau mewn modd cytbwys a phriodol. Rhaid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu gweld yn ddiduedd, yn dryloyw ac yn gadarn. Rhaid i unrhyw gamau a gymerir gael eu dogfennu'n glir a rhaid darparu manylion yn y datganiadau Gwrthdaro Buddiannau a'u rhannu â SLC.

Lle bo'n briodol, bydd y ddau gyflenwr yn darparu data ar gais gan SLC sy'n dilysu eu cydymffurfiad a'u llywodraethu mewn perthynas â COI.

## ARALL

**C. Cawsom gwestiwn hefyd yn nodi y gallai rhai myfyrwr sy'n cael eu hasesu fod o dan 18 oed ac yn cael eu hystyried yn blant yn hytrach nag oedolion ifanc. Gofynnwyd i ni a fydd gan yr holl aseswyr o dan y model asesu newydd y gwiriadau DBS cywir yn eu lle ac yn caniatáu i rieni fod yn bresennol (yn bersonol neu'n rhithiol) os gofynnir am hyn.**

**A.** Gallwn gadarnhau bod y contractau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau gyflenwr sicrhau bod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cynnal a'u hadnewyddu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, a'u bod yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i rieni fod yn bresennol mewn unrhyw asesiad o anghenion, boed yn bersonol neu'n rhithiol.

**C. Fel rhan o'r broses dendro gychwynnol, roedd cost gyffredinol y cyflenwad yn ffactor a gyfrannodd at y dyfarniad, ers cyhoeddi'r dyfarniad mae nifer o ddatblygwyr meddalwedd wedi cynyddu prisiau'n sylweddol, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau y cynhelir gwerth am arian o'r prisiau a gyflwynwyd yn wreiddiol ar gyfer y tendr o gymharu â phrisiau newydd Technoleg Gynorthwyol.**

**A.** Bydd SLC yn cynnal adolygiadau chwe-misol o gyfraddau taliadau cyflenwyr gwirioneddol o gymharu â chyfraddau meincnod y farchnad ac o gymharu â chyfraddau tendro a gyflwynwyd.

Mae'r prosesau hyn yn galluogi SLC i barhau i reoli'r costau sy'n gysylltiedig â darparu technoleg gynorthwyol.

**C. Sut mae'r cyfnod profi gyda Study Tech wedi'i gyflawni?**

**A.** I gefnogi'r gwaith o brofi'r model newydd gyda Study Tech, rhoddwyd proses gyfochrog ar wahân ar waith i ymdrin â cheisiadau i'w neilltuo iddynt. O ystyried y niferoedd cymharol isel dan sylw, defnyddiodd hyn ychydig iawn o gapasiti gweithredol cyffredinol SLC. Byddai myfyrwyr sy'n mynd drwy'r broses beilot wedi cael eu prosesu'n gyflymach wrth i dîm ymroddedig gefnogi'r achosion hyn ac mae'r model gwasanaeth newydd yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i roi cymorth ar waith, wrth i Study Tech gefnogi'r myfyriwr yn rhagweithiol drwy'r broses o'r dechrau i'r diwedd o ddarparu Aseiad Anghenion, Darpariaeth Technoleg Gynorthwyol a Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol.

**C. A oes gan Ddarparwyr Addysg Uwch (HEP) berson cyswllt dynodedig?**

**A.** Yn gyffredinol, bydd myfyrwyr yn cael eu neilltuo i Study Tech neu Capita yn seiliedig ar y cyfeiriad cyswllt y maent yn ei roi i SLC.

Os caiff cymhwysedd i gael DSA ei gadarnhau ar ôl i'r tymor ddechrau, caiff y myfyriwr ei neilltuo i gyflenwr fframwaith yn seiliedig ar gyfeiriad ei ddarparwr addysg uwch (HEP). Mae hyn er mwyn lleihau nifer y myfyrwyr a allai fel arall fod wedi'u neilltuo i gyflenwr nad yw bellach yn y sefyllfa orau i gynnig asesiad wyneb yn wyneb, os yw'r myfyriwr yn gofyn am hyn. Bydd myfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell bob amser yn cael eu dyrannu i gyflenwr yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref.

Pan fo cyflenwr wedi darparu asesiad o anghenion, bydd hefyd yn gyfrifol am gyflenwi'r dechnoleg gynorthwyol, yr hyfforddiant technoleg gynorthwyol a chefnogi'r myfyriwr ag ôl-ofal drwy gydol ei gwrs, hyd yn oed os yw wedi'i leoli mewn parth gwahanol ar ôl cynnal yr asesiad.

Mae hyn yn golygu y bydd gan Ddarparwyr Addysg Uwch fyfyrwyr wedi'u cofrestru sy'n cael eu cefnogi gan Study Tech a Capita. Manylion cysylltu:

- Study Tech: Cyswllt HEP, E-bost: [jane.fraser@study.tech](mailto:jane.fraser@study.tech)
- Capita: Cyswllt HEP, E-bost: [dsahepmanager@capita.com](mailto:dsahepmanager@capita.com)

**C. Pryd fydd pob cais yn mynd ar-lein?**

**A.** Rydyn ni'n disgwyl dechrau cyflwyno ein gwasanaeth digidol wedi'i drawsnewid, gan gynnwys mynediad i geisiadau ar-lein ar gyfer pob myfyriwr DSA o 2025. Byddwn yn cadarnhau dyddiad maes o law.